

# Strategaeth Gyfalaf 2020-2021

## **Cynnwys**

1. Cyflwyniad
2. Cefndir
3. Blaenoriaethau Buddsoddiad Cyfalaf
4. Gweithio gyda Phartneriaid
5. Gwybodaeth a Sgiliau
6. Rheoli Risg
7. Casgliad a Sicrhad Swyddog Adran 151

## Atodiadau

1. Gwariant Cyfalaf
2. Cyllido Cyfalaf a Rhwymedigaethau Tymor Hir
3. Llywodraethiant a Sicrhad
4. Rheoli Asedau
5. Dangosyddion Darbodus
6. Datganiad MRP

## **1 Cyflwyniad**

- 1.1 Dogfen fyw yw'r strategaeth i'w datblygu flwyddyn ar ôl blwyddyn; mae'n cynnig trosolwg ar lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau lleol cyhoeddus.
- 1.2 Mae'r Strategaeth yn rhan annatod o'n proses cynllunio ariannol a gosod y gyllideb ariannol a gwasanaethau yn y tymor canolig i hir. Fe'i paratowyd yn unol â Chod Materion Ariannol CIPFA, argraffiad 2017, i ddangos fod gwariant cyfalaf a phenderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud yn unol ag amcnion gwasanaeth ac yn rhoi ystyriaeth briodol i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb, cynaliadwydd a fforddiadwyedd.
- 1.3 Y Strategaeth yw'r fframwaith lle gosodir holl agweddau busnes cyfalaf y Cyngor, yn cynnwys cynllunio, rheoli, blaenoriaethu, cyllido, monitro a deilliannau.

## **2 Cefndir**

- 2.1 Mae gallu awdurdodau lleol i bennu eu rhaglen buddsoddiad cyfalaf a benthyca cysylltiedig wedi'i ymgorffori yn Neddf Llywodraeth Leol 2003, cyn belled â'u bod yn talu sylw i God Materion Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol a'r Canllawiau ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.
- 2.2 Mae gan fuddsoddiad cyfalaf ran bwysig mewn cyflawni blaenoriaethau hirdymor i'r Cyngor; caiff ei dargedu i fodloni'n prif amcanion corfforaethol a gwasanaeth strategol.
- 2.3 Prif nod y Strategaeth Gyfalaf yw gosod allan y gweithdrefnau llywodraethu ar gyfer blaenoriaethu, cymeradwyo, a monitro'r holl fuddsoddiad cyfalaf; mae'n cynnig trosolwg o sut i reoli'r risg gysylltiedig ac yn anelu at sicrhau :
  - i. fod gwariant cyfalaf yn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth strategol y Cyngor
  - ii. y defnydd gorau i'r adnoddau prin sydd ar gael
  - iii. fod y rhaglen gyfalaf yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy
  - iv. fod fframwaith tryloyw a chadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau am wariant cyfalaf
  - v. fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd o safbwynt Codau Materion Ariannol a Thrysorlys CIPFA, diwygiad 2017
- 2.4 Mae'r Cod yn gosod allan nifer o ddangosyddion darbodus a luniwyd i gefnogi a chofnodi gwneud penderfyniadau lleol; caiff y rhain eu cymeradwyo a'u monitro fel rhan o'r strategaeth hon, cyfeirier at Atodiad 5.

## **3 Blaenoriaethau Buddsoddiad Cyfalaf**

- 3.1 Mae'n rhaid i gynlluniau a gynhwysir i gael buddsoddiad cyfalaf naill ai dargedu un o dri chynllun cynllunio strategol Economi, Pobl a Lle, neu gynllun corfforaethol Trefniadaeth; fel arall mae'n rhaid iddynt ddangos cyfraniad uniongyrchol at barhau i ddarparu gwasanaethau, e.e. ffyrddau incwm newydd, ffyrdd newydd o weithio, cynnal neu gyfoethogi darpariaeth weithredol.

- 3.2 Mae'r Cyngor yn paratoi ei Raglen Gyfalaf ar sail treigl pum mlynedd; cymeradwyr hyn yn flynyddol gan y Bwrdd Gweithredol. Mae adroddiadau dilynol at ddibenion monitro ac alldro yn mynd i'r Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn ariannol.
- 3.3 Mae Tabl 1 yn Atodiad 1 yn gosod allan cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor dros y cyfnod adrodd yn ôl a fynir yng Nghod Materion Ariannol CIPFA, wedi'u rhannu rhwng y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai.
- 3.4 Caiff y cynlluniau buddsoddi cyfalaf a nodir yn Atodiad 1 eu gyrru gan y Cynllun Corfforaethol, dogfen strategaeth graidd y Cyngor sy'n gosod allan gweledigaeth, uchelgeisiau, gwerthoedd a blaenoriaethau'r Cyngor. Mae enghreifftiau tymor agos o ymrwymiad ariannol y Cyngor i gyflawni ar ei weledigaethau yn cynnwys:
- i. Moderneiddio'r seilwaith TGCh
  - ii. Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif
  - iii. Gwelliannau a chynnal a chadw'r Seilwaith Priffyrdd
  - iv. Datblygiadau adeiladu newydd y Cyfrif Refeniw Tai a'r rhaglen Prynu'n Ôl
- 3.5 Fel cynllun pum mlynedd, mae Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn ymestyn i'r tymor canolig; tra bod rhaglennu'n buddsoddiad cyfalaf yn ddigon hyblyg i ganiatáu ar gyfer prosiectau sydd â rhyw elfen o frys i'w cyllido, mae themâu strategol craidd yn rhedeg trwy'r rhaglen gan iddynt gael eu llunio fel rhan o'r weledigaeth i'r hirdymor. Byddai dyheadau hirdymor i'r Cyngor yn disgwyl cynnwys sylw ar flaenoriaethau'r rhai bregus, addysgu plant y Fwrdeistref Sirol, adfywio canol y dref a'r ardal ehangach, cynnal y seilwaith ffyrdd a darparu tai addas a digonol. Caiff y rhain i gyd eu hadlewyrchu yn egwyddorion a themâu Cynllun cyfredol y Cyngor. Er bod y ddogfen drosfwaol hon yn cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd, mae'r deilliannau a ddymunir yn rhai parhaol gyda rhai mân newidiadau yn y pwyslais wrth adolygu fel y gwelir yn angenrheidiol gan yr aelodau etholedig.

#### **4 Gweithio gyda Phartneriaid**

- 4.1 Mae'r Cyngor yn sylweddoli fod yr amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo yn newid wrth iddo gael ei herio i gyflwyno mwy gyda llai, sydd o reidrwydd wedi golygu ei fod yn adolygu'r ffordd y mae'n cyflawni rhai gwasanaethau.
- 4.2 Mae'r adolygiadau wedi cynnwys a yw'r gwasanaethau yn addas i'r diben, yn dal yn ymarferol o dan y pwysau ariannol presennol, a allai sefydliad arall eu cyflawni'n well, neu efallai y byddai'n fwy addas iddynt gael eu cyflawni gan neu mewn partneriaeth â thrydydd parti.
- 4.3 Dyma rai enghreifftiau o'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid:
- i. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam, yn gweithio i wella lles pobl leol; mae'r partneriaid yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Tân ac Achub Gogledd Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.
  - ii. Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (SMAF) a ariennir gan Lywodraeth Cymru (LIC); y Cyngor yw'r comisiynydd penodedig dros Fwrdd Rhaglen yr Ardal yn sicrhau ei fod yn gweithio'n agos gyda'r pum awdurdod arall yng Ngogledd Cymru a chyrrff rhanbarthol i gyflwyno gwasanaethau i rai o'r mwyaf bregus yn y rhanbarth.

- iii. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda LIC hefyd ar ddarparu gwasanaethau craidd allweddol mewn Ysgolion a Thai drwy'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r prosiect Troi Tai'n Gartrefi. Mae gan y ddau gynllun hyn gylch gwaith cenedlaethol, ond drwy weithio'n agos gyda LIC ar y ddarpariaeth leol yn y ddau beth, mae'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael iddo i ddarparu gwasanaethau sylfaenol i'r gymuned.
- 4.4 Ym mis Hydref 2016, mabwysiadodd y Cyngor, drwy ei Fwrdd Gweithredol, y Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru (HHE/34/16); mae'r weledigaeth yn amlinellu uchelgais strategol i Ogledd Cymru o ran:
    - i. datblygu trafndiaeth a seilwaith
    - ii. sgiliau a chyflogaeth, ac
    - iii. arloesedd a thwf busnes
  - 4.5 Mabwysiadwyd y strategaeth ar yr un pryd gan bob un o'r pum awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru ynghyd â sefydliadau partner eraill, Cyngor Busnes Gogledd Cymru a'r sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach.
  - 4.6 Datblygwyd y strategaeth gan y Bwrdd Uchelgais yn Gais Twf y Gogledd i gael buddsoddiad cenedlaethol a rhoi pwerau i'r rhanbarth gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Pedair thema graidd y Cais yw:
    - i. safleoedd strategol ar gyfer cyflogaeth a thai
    - ii. seilwaith trafndiaeth a gwasanaethau
    - iii. arloesedd a thwf busnes
    - iv. sgiliau, bod heb waith a diwygio cymdeithasol
  - 4.7 Diben y Cais yw adeiladu Cymru sy'n Flaengar, yn Wydn ac yn Gysylltiedig gan dargedu'r deilliannau strategol canlynol:
    - i. twf mewn ffyniant rhanbarthol
    - ii. creu swyddi o ansawdd gwell i'r farchnad lafur leol
    - iii. gweithlu mwy medrus o fewn y rhanbarth
    - iv. gwelliannau mewn safonau byw ledled y rhanbarth
  - 4.8 Ar 4 Tachwedd 2019 ymunodd cynrychiolwyr o Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru â Llywodraethau Cymru a'r DU i lofnodi Penawdau'r Telerau a chytuno ar y saith rhaglen a fydd yn sail i'r fargen o 2020 ymlaen.
  - 4.9 Mae telerau'r fargen yn ymrwymo'r ddwy Lywodraeth i fuddsoddiad sylweddol yn y rhanbarth, a bydd hwn wedi'i gyfuno â chyfraniadau gan bartneriaid a'r sector preifat yn ariannol yn werth mwy na £1 biliwn. Y disgwyliad yw y bydd hwn yn cael effaith gadarnhaol ar filoedd o aelwydydd, busnesau a sefydliadau ar draws y rhanbarth.
  - 4.10 Mae'r rhaglenni yn y Fargen Twf yn cynnwys prosiectau ar ynni carbon isel, gweithgynhyrchu uwch, diwydiannau tir i gynnwys amaethyddiaeth a thwristiaeth, tir ac eiddo, sgiliau a chyflogaeth, cysylltedd digidol a thrafnidiaeth strategol.

## 5 Gwybodaeth a Sgiliau

- 5.1 Mae dull y Cyngor o sicrhau fod yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol yn ei feddiant ac yn cael eu dangos wrth wneud penderfyniadau cyfalaf, benthycu a buddsoddi yn un triphlyg:
- cyflogi staff profiadol â chymwysterau proffesiynol i fod â chyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau
  - hyfforddiant parhaus a helaeth i aelodau'r Cyngor i'w helpu i wneud penderfyniadau cytbwys a chraffu yn effeithiol
  - cyflogi cynghorwyr Rheoli Trysorlys i roi cyngor arbenigol yn y meysydd angenrheidiol
- 5.2 Wrth ddefnyddio dull haenog o wneud penderfyniadau, mae'r Cyngor yn hyderus fod ganddo'r gobaith gorau nid yn unig o gyrraedd ei nodau corfforaethol drwy fuddsoddiad hirdymor, ond bod y penderfyniadau a wneir i wireddu amcanion yn cael eu cymryd o'r sefyllfa fwyaf wybodus bosibl, ar lefel swyddogion ac aelodau.
- 5.3 Y bwriad yw adeiladu sail gwybodaeth gadarn i swyddogion ac aelodau, gyda chefnogaeth cynghorwyr allanol fel bo'r angen. Drwy hyn gall y Cyngor fod yn hyderus yn ei raglen 'arferol' o fuddsoddi cyfalaf ac unrhyw brosiectau uchelgeisiol sydd wedi mynd trwy'r broses fewnol.
- 5.4 Mae'r broses graffu drwyadl y mae cynigion unigol yn mynd trwyddi, gan adolygu gwybodus a chytbwys, yn amddiffyniad cryf yn erbyn methiant yn y dyfodol; drwy gael ymagwedd systematig wedi'i chofnodi'n dda at adolygu prosiectau, mae'r Cyngor yn sicrhau lliniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig ag ymgymryd â'r prosiectau hynny.

## 6 Rheoli Risg

- 6.1 Wrth wneud buddsoddiadau Rheoli Trysorlys nid yw'r Cyngor yn dibynnu'n llwyr ar Statws Credyd; er bod y rhain yn arwydd da o deilyngdod credyd, mae angen ystyried ffactorau eraill er mwyn sicrhau gallu gwneud y penderfyniad mwyaf cytbwys. Mae'r Cyngor yn gwneud pob penderfyniad o'r fath drwy gyfeirio at gyngor a gafwyd gan eu cynghorwyr allanol.
- 6.2 Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn diffinio eiddo buddsoddi fel eiddo sy'n cael ei ddal ddim ond i ennill rhent neu adbrisiant cyfalaf neu'r ddau; mae canllaw drafft diweddaraf Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2019) yn tynhau'r diffiniad hwn i gynnwys y rheiny a ddelir *yn rhannol* i'r naill weithgaredd neu'r llall. Nid yw Cyngor Wrecsam yn dal unrhyw eiddo buddsoddi, nid yw'r Cyngor chwaith yn benthycu arian gyda golwg ar fuddsoddi er elw masnachol.

## 7 Casgliad a Sicrhad Swyddog A151

- 7.1 Lluniwyd y Strategaeth Gyfalaf hon yn unol â gofynion Cod Materion Ariannol 2017 a Chod Rheoli Trysorlys 2017 CIPFA.

- 7.2 Ym marn y Swyddog 151, mae'r strategaeth yn ddarbodus a fforddiadwy ac mae wedi'i hintegreiddio'n llawn â Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys.
- 7.3 Bydd y Strategaeth Gyfalaf, ynghyd â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys, yn cael ei hadolygu a'u cymeradwyo bob blwyddyn gan y Cyngor Llawn fel rhan o broses gosod cyllideb a chynllun busnes y Cyngor. Cyn hynny, ac yn unol â'r arfer gorau, bydd yn cael ei chyflwyno i'w hystyried gan y Bwrdd Gweithredol.

## **Gwariant Cyfalaf**

Buddsoddiad cyfalaf yw lle mae'r Cyngor yn gwario arian ar asedau, megis eiddo neu gerbydau, a fydd yn cael eu defnyddio am fwy nag un flwyddyn.

Isod crynhoir y prif egwyddorion ar gyfer rhaglen gyfalaf bum mlynedd Wrecsam (Tabl 1):

- dylai'r penderfyniadau am fuddsoddiad cyfalaf adlewyrchu'r dyheadau a'r blaenoriaethau sydd yng Nghynllun y Cyngor a'r strategaethau ategol.
- bydd y cynlluniau sydd i'w hychwanegu at y rhaglen gyfalaf yn dod o dan weithdrefnau llywodraethu trwyadl a chadarn; mae hyn yn golygu defnyddio technegau gwerthuso a blaenoriaethu i'r achosion busnes a gyflwynir.
- rhaid i gost lawn unrhyw gynllun cyfalaf gael ei sefydlu o'r cam cynllun busnes; bydd hyn yn cynnwys unrhyw gostau cyllido a chostau gweithredol referniw yn y dyfodol
- rhaid i gomisiynu a chaffael cynlluniau cyfalaf gydymffurfio â'r gofynion a amlinellwyd yng nghyfansoddiad a rheoliadau ariannol y Cyngor – rheolau caffael contract.

**Tabl 1****Rhaglen Gyfalaf Treigl Pum Mlynedd 2019/2020-2023/2024**

	Revised Forecast 2019/20	Planned Programme 2020/21	Planned Programme 2021/22	Planned Programme 2022/23	Planned Programme 2023/24
	£	£	£	£	£
<b>Forecast Expenditure</b>					
Corporate Schemes	924,671	855,000	250,000	250,000	250,000
Housing and Economy	11,297,952	5,944,689	2,870,608	2,046,275	1,749,298
Housing Revenue Account	56,905,366	51,896,836	43,566,728	45,744,578	43,393,493
Education and Early Intervention	5,814,556	5,519,190	2,286,412	2,109,625	1,880,000
Environment and Planning	7,443,382	2,546,358	1,818,175	1,275,000	1,675,000
Social Care	3,408,411	6,226,253	250,000	250,000	250,000
<b>Total Capital Programme</b>	<b>85,794,338</b>	<b>72,988,325</b>	<b>51,041,923</b>	<b>51,675,478</b>	<b>49,197,791</b>
<b>Financing</b>					
<b>Borrowing</b>					
Unhypothesized Supported Borrowing	3,534,000	3,518,000	3,460,000	3,500,000	3,500,000
GF Unsupported Borrowing	58,989	0	0		
HRA Unsupported Borrowing	44,215,366	39,254,836	32,592,513	37,100,962	31,974,198
WG Invest to Save Schemes / Repayable Fund	315,942	0	0		
Salix	1,011,202	377,210	0		
<b>Total Borrowing</b>	<b>49,135,499</b>	<b>43,150,046</b>	<b>36,052,513</b>	<b>40,600,962</b>	<b>35,474,198</b>
<b>Grants &amp; Contributions</b>					
General Capital Grant	5,383,993	2,142,000	2,140,000	2,130,000	2,130,000
Transport Grants	851,942	0	0	0	0
Highways Refurbishment Grant	742,590	0	0	0	0
21st Century Schools programme	626,910	1,412,713	806,412	29,625	0
Reducing Infant Class Sizes Grant	364,680	625,000	0	0	0
Welsh Medium/Childcare offer Capital Grant	133,350	716,000	0	0	0
Collaborative Change Programme Grant	749,996	0	0	0	0
Flying Start Grant	73,900	0	0	0	0
School Maintenance Grant	0	0	0	0	0
Heritage Lottery Fund	256,252	307,415	536,160	271,275	174,298
Major Repairs Allowance	7,550,000	7,550,000	7,550,000	7,550,000	7,550,000
Integrated Care Fund	1,745,701	1,647,053	0	0	0
Substance Misuse Action Fund	132,468	0	0	0	0
Targeted Regeneration Investment Programme	2,147,638	3,014,213	0	0	0
Childcare Offer Grant	1,292,119	4,129,200	0	0	0
Sports Council Wales	144,500	0	0	0	0
Other WG grants	1,269,987	104,865	33,175	0	0
HRA Revenue Contribution	2,613,000	2,092,000	1,424,215	1,093,616	3,869,295
Other Contributions	3,874,026	1,729,455	300,000	0	0
<b>Total Grants &amp; Contributions</b>	<b>29,953,051</b>	<b>25,469,914</b>	<b>12,789,962</b>	<b>11,074,516</b>	<b>13,723,593</b>
<b>Usable Capital Receipts Applied</b>					
General Fund	4,178,787	1,368,365	199,448	0	0
HRA	2,527,000	3,000,000	2,000,000	0	0
<b>Total Usable Capital Receipts Applied</b>	<b>6,705,787</b>	<b>4,368,365</b>	<b>2,199,448</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Total</b>	<b>85,794,338</b>	<b>72,988,325</b>	<b>51,041,923</b>	<b>51,675,478</b>	<b>49,197,791</b>
<b>Shortfall / Surplus in Funding ( - )</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Total Capital Programme</b>	<b>85,794,338</b>	<b>72,988,325</b>	<b>51,041,923</b>	<b>51,675,478</b>	<b>49,197,791</b>



## **Cyllido Cyfalaf**

Caiff buddsoddiad cyfalaf y Cyngor ei gyllido drwy amryw o ffynonellau yn cynnwys:

- Derbyniadau o werthiant asedau cyfalaf
- Grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru
- Cyfraniadau trydydd parti fel arian cynllunio A106
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn neu gyfraniadau cyllideb refeniw

Polisi presennol y Cyngor ar dderbyniadau'r Gronfa Gyffredinol o werthiannau yw y bydd yr arian a dderbynnir yn cael ei fuddsoddi mewn ysgolion, ac eithrio derbyniadau gan ystadau masnachol sydd i gael eu hail-fuddsoddi yn yr ystâd fasnachol a'r gwerthiannau hynny wedi'u dynodi'n benodol ar gyfer tai fforddiadwy.

Bydd angen i wariant cyfalaf nas ariennir gan unrhyw un o'r llwybrau uchod gael ei ariannu drwy fenthycia; dyled bresennol y Cyngor yw canlyniad gwariant cyfalaf hanesyddol. Gellir gweld lefel bresennol dyled y Cyngor yn Nhabl 3, Atodiad 5. Rheolir lefel y ddyled drwy fonitro yn erbyn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (Tabl 2, Atodiad 5) fel amddiffyniad yn erbyn benthycia i ariannu refeniw tymor byr ac yn erbyn y Ffin Weithredol a'r Terfyn Awdurdodedig (Tabl 4 yn Atodiad 5) er mwyn diogelu fforddiadwyedd y buddsoddi a fwriedir. Fel cam dros dro, gall y Cyngor ddefnyddio adnoddau a ddelir, fel arian parod a dderbyniwyd o flaen angen neu gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant cyfalaf. Cyfeirir at hyn fel benthycia mewnol.

Mae rhaglen gyfalaf cronfa gyffredinol gyfredol y Cyngor yn cael eu hariannu gan mwyaf gyda'r adnoddau sydd ar gael a nodwyd yn Nhabl 1 uchod; mae bod yn ymwybodol o risg wedi mynnu nad yw'r Cyngor yn dilyn dull o fenthycia i ariannu buddsoddiad fel rhywbeth arferol. Gall y Cyngor ystyried risg fwy cymedrol ar gyfer cynlluniau strategol, lle mae elw uniongyrchol i ffrwd refeniw'r Cyngor neu'r gallu i gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn fwy effeithiol ac effeithlon; bydd unrhyw gynigion o'r fath yn mynd trwy broses adolygiad trylwyr a diwydrwydd dyladwy fel mater o drefn.

Mae doethineb, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd rhaglen gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn cynllun busnes tri deg mlynedd, sydd angen cael ei ddrafftio a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r broses o gymeradwyo cynnwys prosiectau yn y rhaglen gyfalaf yn sicrhau fod pob un o'r cynlluniau cyfalaf a buddsoddi yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy. Wrth wneud hyn bydd y Cyngor yn ystyried y trefniadau ar gyfer ad-dalu dyled, drwy bolisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) darbodus yn unol â chanllawiau MRP a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gellir gweld datganiad MRP Y Cyngor ar gyfer 2020-2021 yn Atodiad 6.

Mae ffioedd cyllido cyfalaf ac unrhyw gostau rhedeg ychwanegol sy'n deillio o benderfyniadau buddsoddi cyfalaf yn cael eu hymgorffori yn y gyllideb flynyddol a'r cynllun ariannol tymor canolig. Mae hyn yn darparu dolen gyswllt rhwng proses gyffredinol gosod cyllideb y Cyngor a'i ofyniad am fuddsoddiad cyfalaf a gellid ystyried fod y rhain yn cystadlu am gyllid refeniw.

Mae un Dangosydd Darbodus a fwriadwyd i reoli'r risg fod y Cyngor yn gorymestyn fforddiadwyedd ei gynlluniau buddsoddi yn cael ei ddangos yn Nhabl 5 Atodiad 5 - cyfran y costau cyllido i'r ffrwd refeniw net; mae'r canrannau a adroddir yn ffigyrau canllaw pwrpasol a osodwyd i'w defnyddio gan gynghorau unigol, ac nid ydynt wedi'u llunio fel cymaryddion rhwng y cynghorau hynny.

### Rhwymedigaethau Hirdymor

Fel ffurf arall o gyllido cyfalaf, mae Wreccsam yn rhan hefyd o Drefniant Consesiwn Gwasanaeth drwy Fenter Cyllid Preifat (PFI) mewn strategaeth gwastraff gyda FCC Recycling UK Limited. Fel sefydliad sydd nid yn unig wedi ymrwymo i gyrraedd targedau LLC o 64% i ailgylchu erbyn 2020 a 70% erbyn 2025, ond hefyd fel sefydliad gwyrdd sy'n cael ei yrru gan ddymuniad i wella'r amgylchedd lleol a'r un ehangach, sylweddolodd y Cyngor, er mwyn cyrraedd y targedau rheolaethol a osodwyd gan LIC, ond hefyd cyflawni ei ddyletswyddau fel sefydliad cyfrifol yn yr 21ain Ganrif, fod angen iddo weithio mewn partneriaeth â thrydydd parti i gyflawni ei nodau. Dyma enghraifft dda o'r Cyngor yn cydnabod nad yw yn y sefyllfa orau i gyflawni gwasanaeth, a chwilio am drefniadau gwahanol i gyrraedd nodau strategol.

## **Llywodraethiant a Sicrhad**

Mae cyfuniad o'r broses ddemocrataidd o wneud penderfyniadau a'r gweithdrefnau craffu yn darparu cyfeiriad gwleidyddol cyffredinol ac yn sicrhau atebolrwydd am fuddsoddi yn y rhaglen gyfalaf.

Cyflawnir hyn drwy gyfres o brosesau cysylltiedig sy'n cynnwys

- Y Cyngor Llawn yn cymeradwyo Cynllun y Cyngor sy'n gosod allan y blaenoriaethau strategol i'r Cyngor
- Y Bwrdd Gweithredol (BG) yn cymeradwyo pumed flwyddyn y rhaglen gyfalaf yn ei gyfarfod ym mis Hydref; adroddiadau pellach yn mynd i'r BG ym mis Chwefror i adrodd ar gynnydd gyda'r cynlluniau presennol yn y flwyddyn ac unrhyw geisiadau am llithriant, mae adroddiad alldro yn mynd i'r BG ym mis Gorffennol i roi diweddariad am berfformiad y flwyddyn flaenorol.
- Mae'r Grŵp Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol yn adolygu'r ceisiadau am bumed flwyddyn y cyfalaf yn seiliedig ar fatrics y cytunwyd arno o feini prawf sgorio cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd; mae'r Grŵp hwn hefyd yn cynnal adolygiad cyfnodol o'r matrices sgorio prosiectau cyfalaf i sicrhau ei fod yn addas i'r diben, ac yn argymhell unrhyw newidiadau i'r BG eu cymeradwyo.
- Caiff y rhaglen ei monitro'n barhaus gan yr adran gyfrifyddiaeth ganolog sy'n cysylltu â noddwyr y prosiect a rheolwyr drwy gydol y flwyddyn ariannol.

Mae unrhyw gynigion am fuddsoddiad cyfalaf yn gorfod cael gwerthusiad trwyadl. Bydd y gwerthusiad yn y camau cyntaf yn cael ei wneud gan banel o swyddogion, a bydd wedi'i lunio i dynnu sylw at y prif fuddiannau y disgwylir fydd yn deillio o'r prosiectau mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cyngor. Bydd pob gwerthusiad yn cynnwys ystyriaethau ariannol fel y gost ddisgwyliedig, sef y gwariant cychwynnol, refeniw ac ariannu yn y dyfodol, a hefyd yn cofnodi'r ffynonellau ariannu a adnabuwyd. Yna bydd pob prosiect yn cael ei sgorio yn unol â matrices y cytunwyd arno (Bwrdd Gweithredol Mai 2018), a'i gyflwyno i'w ystyried gan y Grŵp Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol fel y cofnodwyd uchod.

## **Rheoli Asedau**

Fel trosolwg strategol nid yw Cynllun y Cyngor wedi'i lunio i fod yn rhaglen fanwl am sut i gwrdd â blaenoriaethau; caiff y ddyletswydd hon ei chyflawni gan gyfres o gynlluniau asedau cyflawni gwasanaeth sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau cyffredinol yn y Cyngor, ac yn disgrifio sut bydd y rhain yn cael eu cyflawni ar lawr gwlad.

Mae dogfennau allweddol sy'n helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor yn cynnwys:

- *Y Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol-* yn gosod allan y *Polisi Gweithdrefnau a Safonau Eiddo* sy'n cynnwys datganiadau o ymarfer sy'n gysylltiedig â'r canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:
  - Datganiad Tir Dros Ben
  - Gwaredu Asedau Tir ac Eiddo
  - Dyrannu Asedau Tir ac Eiddo
  - Caniatadau Gwaredu Cyffredinol

Mae pob un o'r uchod wedi'i fframio o fewn amcan Strategol Rheoli Asedau Corfforaethol:

*'Mae'n dangos fod y Cyngor yn rheoli'n strategol a chadarn a bydd yn parhau i reoli ei asedau'n gorfforaethol er budd pobl a chymunedau Wrecsam.'*

Gwefan Cyngor Wrecsam. Polisi'r Cyngor i gyflawni amcanion strategol drwy'r Asedau Tir ac Adeiladau [www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/key\\_docs/corporate\\_land\\_and\\_building\\_strategy.pdf](http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/key_docs/corporate_land_and_building_strategy.pdf)

- *Strategaeth Dai Leol (LHS) 2018-2023-* yn dangos ymrwymiad y Cyngor i fabwysiadau agwedd holistig at ddarparu tai, yn eu ffurfiau amryfal, drwy'r Fwrdeistref Sirol. Mae'n amlinellu gweledigaeth y Cyngor i gyflwyno tai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai yn y Fwrdeistref Sirol a'i rôl ei hun a rôl partneriaid wrth gyflawni hyn.

Bydd y cyfeiriad strategol lefel uchel i'r Strategaeth newydd yn parhau â'r themâu a bennwyd gan ei rhagflaenydd:

- Mwy o Ddewis o ran Tai
- Tai a Chymunedau o Ansawdd Gwell, a
- Gwell Gwasanaethau i Wella Bywydau Pobl

[Gwefan Cyngor Wrecsam. Dull Strategol y Cyngor o gyflenwi gwell cynnig Tai yn y Fwrdeistref Sirol](#)

*Prif Gynllun Canol Tref Wrecsam-* yn ei hanfod mae'n cynnig gweledigaeth i ganol y dref:

*'gydag ystod amrywiol o siopa hygyrch, defnyddiau hamdden fel bwytai teulu, y celfyddydau ac atyniadau diwylliannol, lle manwerthu arbenigol mewn parth cyhoeddus o ansawdd ac amgylchedd sy'n ei adnabod fel "Wrecsam".'*

Gwefan Cyngor Wrexham. Gweledigaeth Strategol y Cyngor am ganol dref sy'n gallu cyflenwi pob agwedd o fywyd modern i'r trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd  
[www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/planning/masterplan/wrexham\\_town\\_masterplan.pdf](http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/planning/masterplan/wrexham_town_masterplan.pdf)

- *Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd Wrexham*- yn cofnodi sut, fel Awdurdod Priffyrdd sy'n rheoli 1,187km o ffyrdd, y mae'n rhaid i ni gyflawni'n dyletswydd statudol er gwaethaf pwysau cynyddol sy'n cynnwys:
  - Cyllidebau prin
  - Adnoddau staff prin
  - Rhwydwaith priffyrdd hen gydag ôl-groniad o ofynion cynnal a chadw
  - Atebolrwydd cynyddol i'r cyhoedd
  - Disgwyliadau cynyddol y cyhoedd

Er mwyn cyflawni hyn yn y modd gorau, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r diffiniad rheoli asedau a baratowyd gan Gymdeithas y Syrffewyr Sirol:

*'Mae rheoli asedau yn agwedd strategol sy'n adnabod y dyraniad gorau o adnoddau ar gyfer rheoli, gweithredu, cadw a gwella'r seilwaith priffyrdd i fodloni anghenion cwsmeriaid, yn awr ac yn y dyfodol'*

[Gwefan Cyngor Wrexham. Dogfen sy'n gosod allan agwedd y Cyngor at wneud y mwyaf o'r adnoddau a roddir i'r seilwaith priffyrdd er mwyn cael y deilliannau gorau.](#)

**Dangosyddion Darbodus 2020-2021**

Er eglurder, mae CIPFA yn dosbarthu'r Dangosyddion Darbodus angenrheidiol fel y rheiny sy'n deillio o'r angen i sicrhau Doethineb a Fforddiadwyedd. Mae'r tablau a'r naratif isod yn ceisio cydymffurfio â'r dosbarthiadau hyn, a chyflawni dyletswyddau'r Cyngor yn hyn o beth, ac ar yr un pryd rhoi rhywfaint o gyd-destun ar bob mesur.

**Doethineb**

*Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf*

	<b>2018/19 gwirioneddol £m</b>	<b>2019/20 rhagolwg £m</b>	<b>2020/21 cyllideb £m</b>	<b>2021/22 cyllideb £m</b>	<b>2022/23 cyllideb £m</b>
Gwasanaethau'r Gronfa Gyffredinol	15.77	28.89	21.09	7.47	5.93
Tai Cyngor (HRA)	42.23	56.90	51.90	43.57	45.74
<b>CYFANSWM</b>	<b>58.00</b>	<b>85.79</b>	<b>72.99</b>	<b>51.04</b>	<b>51.67</b>
Benthyca	29.99	49.13	43.15	36.05	40.60
Mewnol	9.45	11.66	7.39	3.92	1.09
Allanol	18.56	25.00	22.45	11.07	9.98
<b>CYFANSWM</b>	<b>58.00</b>	<b>85.79</b>	<b>72.99</b>	<b>51.04</b>	<b>51.67</b>

Y Dangosydd Darbodus Gwariant Cyfalaf (Tabl 1) yw'r sylfaen i'r rhan fwyaf o Ddangosyddion Darbodus y Cyngor; mae'r Dangosydd Darbodus hwn wedi'i wreiddio yn rhaglen gyfalaf y Cyngor, ac mae'n ddangosydd *Fforddiadwyedd* datganedig o fewn y Cod Materion Ariannol.

Mae'r prosiectau gwerth uchel, sef y rhai a welir gan mwyaf mewn rhaglen gyfalaf yn golygu fod gwariant cyfalaf yn ffynhonnell sylweddol o risg i unrhyw Gyngor; mae natur y prosiectau hyn yn golygu eu bod yn aml yn gweld amrywiadau mewn cost, llithriant neu newidiadau mewn manyleb.

Wedi penderfynu drwy'r broses lywodraethiant fod y rhaglen gyfalaf yn fforddiadwy, mae monitro'r hyn y cytunwyd arno yn erbyn y gwariant gwirioneddol yn elfen allweddol o reoli risg ac mae'r Dangosydd hwn wedi'i lunio i helpu gyda hynny. Bydd monitro rheolaidd, gyda'r Dangosydd hwn yn gonglfaen iddo, yn helpu i ddangos lle mae cynlluniau yn crwydro o'r hyn a ddisgwylir naill ai o safbwynt y gost neu'r amserlen.

Tabl 2 Dangosydd Darbodus: Gofyniad Cyllido Cyfalaf

	31.3.2019 GCC £m	31.3.2020 GCC a ragwelir £m	31.3.2021 GCC a ragwelir £m	31.3.2022 GCC a ragwelir £m	31.3.2023 GCC a ragwelir £m
Y Gronfa Gyffredinol	156.03	158.22	158.68	156.29	153.49
HRA	271.73	307.21	335.95	356.47	380.19
<b>Cyfanswm GCC</b>	<b>427.76</b>	<b>465.43</b>	<b>494.63</b>	<b>512.76</b>	<b>533.68</b>

Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) (Tabl 2) yw swm y gwariant cyfalaf nad yw wedi'i ariannu eto gan dderbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf neu gyfraniadau gan refeniw. Mae'r GCC yn mesur yr angen gwaelodol i fenthycia at ddibenion cyfalaf, er fel arfer nid yw hyn yn digwydd fel benthycia allanol gan fod cynghorau'n aml yn ceisio defnyddio arian a ddelir mewn cronfeydd wrth gefn ac arian a dderbyniwyd o flaen yr angen, y cyfeirir ato fel benthycia mewnol.

Lluniwyd y GCC i fod yn fesur o'r gwarged neu'r diffyg ar drafodion cyfalaf ynghyd â'r rhwymedigaethau hirdymor sy'n gysylltiedig ag asedau anghyfredol. Mae dangosydd darbodus y GCC felly wedi'i gysylltu'n annileadwy â'r Dangosyddion sy'n ymwneud â lefelau dyled (Tabl 3) a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol (Tabl 4a a b).

Tabl 3 Dangosydd Darbodus: Lefel y Dyled

Dyled	31.03.19 Gwirion- eddol £m	31.03.20 Amcan £m	31.03.21 Amcan £m	31.03.22 Amcan £m	31.03.23 Amcan £m
Benthycia	367.60	390.54	424.38	446.41	469.10
Rhwymedigaethau Hirdymor	26.66	28.43	29.76	28.90	27.75
<b>Cyfanswm Dyled</b>	<b>394.26</b>	<b>418.97</b>	<b>454.14</b>	<b>475.31</b>	<b>496.85</b>

Tabl 4(a) Dangosydd Darbodus: Ffin Weithredol a'r Terfyn Awdurdodedig

Ffin Weithredol	2018/19 £m	2019/20 £m	2020/21 Amcan £m	2021/22 Amcan £m	2022/23 Amcan £m
Benthycia	419.89	434.37	469.87	488.86	510.93
Rhwymedigaethau Hirdymor	27.74	28.43	29.76	28.90	27.75
<b>Cyfanswm</b>	<b>447.63</b>	<b>462.80</b>	<b>499.63</b>	<b>517.76</b>	<b>538.68</b>

Tabl 4 (b) Dangosydd Darbodus: Ffin Weithredol a'r Terfyn Awdurdodedig

<b>Terfyn Awdurdodedig</b>	<b>2018/19 £m</b>	<b>2019/20 £m</b>	<b>2020/21 Amcan £m</b>	<b>2021/22 Amcan £m</b>	<b>2022/23 Amcan £m</b>
Benthyca	434.89	449.37	484.87	503.86	525.93
Rhwymedigaethau Hirdymor	27.74	28.43	29.76	28.90	27.75
<b>Cyfanswm</b>	<b>462.63</b>	<b>477.80</b>	<b>514.63</b>	<b>532.76</b>	<b>553.68</b>

Mae lefel y ddyled a ragwelir, ac o ganlyniad y Ffin Weithredol a'r Terfyn Awdurdodedig, wedi cael eu codi gan swm a amcangyfrifwyd i adlewyrchu effaith ddisgwyliedig mabwysiadu IFRS16 (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) o 1 Ebrill 2020 (Gwerth a amcangyfrifir yn seiliedig ar gyfanswm rhwymedigaeth les weithredol sy'n weddill fel ar 31 Mawrth 2019). Mae IFRS16 yn mynnu fod y Cyngor yn adolygu pob un o'i drefniadau les gyda'r tebygrwydd y bydd ei rwymedigaeth les ariannol ar y fantolen o fewn Rhwymedigaethau Hirdymor yn cynyddu.

Mae'r gofyniad deddfwriaethol sy'n mynnu fod Awdurdodau Lleol yn gosod lefel o ddyled allanol wedi'i wreiddio yn Neddf Llywodraeth Leol 2003, ac fe'i gorfodir drwy Ddangosydd Darbodus (DD) y Terfyn Awdurdodedig. Yn ymarferol, mae'r Terfyn Awdurdodedig yn adlewyrchu arian wrth gefn mewn argyfwng ar y Ffin Weithredol a osodir, ac mae honno'n cael ei gosod drwy gyfeirio at y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC).

Nid yw lefelau gwirioneddol dyled allanol yn cydberthyn o reidrwydd â GCC y Cyngor, oherwydd yn aml bydd penderfyniadau rheoli'r trysorlys yn pennu faint o fenthyca allanol sy'n digwydd. Un cymharydd allweddol y gellir ei ddefnyddio rhwng y GCC a'r DD Dyled yw monitro nad yw'r Ddyled fyth yn fwy na'r GCC. Ni fydd cyfanswm dyled allanol y Cyngor yn gwahaniaethu rhwng defnyddiau cyfalaf a refeniw; mae'r Cyngor yn eglur yn ei strategaeth mai dim ond at ddibenion cyfalaf yn unol â'r canllawiau y bydd yn benthyca. Sicrheir hyn drwy fonitro parhaus y lefelau benthyca gwirioneddol a'r GCC, drwy Ddangosyddion Darbodus.

Fel Dangosyddion Darbodus o wariant cyfalaf fforddiadwy, mae'r GCC a'r terfyn awdurdodedig yn offerynnau llawer mwy effeithiol os cyfeirir atynt ochr yn ochr â'i gilydd yn hytrach nac ar wahân. Bydd GCC y Cyngor a lefel y benthyca allanol i ddirdfodion y flwyddyn ariannol gyfredol yn cael eu cymryd o'r Datganiad o Gyfrifon, gyda'r ffigyrau rhagolwg sy'n seiliedig yn y ffigyrau agoriadol yn cael eu haddasu unwaith y gwyddys beth yw gwariant y rhaglen gyfalaf ac ad-dalu dyledion. Mae gosod lefel i'r Terfyn Awdurdodedig yn ymarfer allweddol i sicrhau ei fod yn offeryn effeithiol, ochr yn ochr â'r Ffin Weithredol. Os yw'n cael ei osod yn rhy isel, gall arwain at doriadau mynych sydd ond yn dangos dangosyddion a osodwyd yn wael, os yw'n cael ei osod yn rhy uchel gallai unrhyw brocio neu gyfeirio ddigwydd ar adeg pan mae'r Cyngor eisoes yn or-agored o safbwynt benthyca allanol.



## **Fforddiadwyedd**

*Tabl 5 Dangosydd Darbodus: Cyfran y costau cyllido i'r ffrwd refeniw net*

<b>Cymhareb y Costau Cyllid â'r Ffrwd Refeniw Net</b>	<b>2019/20 Amcan %</b>	<b>2020/21 Amcan %</b>	<b>2021/22 Amcan %</b>	<b>2022/23 Amcan %</b>
Y Gronfa Gyffredinol	3.31	3.05	2.94	2.83
Cyfrif Refeniw Tai (HRA)	37.56	40.42	41.36	42.60

Er nad yw gwariant cyfalaf, trwy ddiffiniad, yn cael ei roi'n uniongyrchol ar y gyllideb refeniw, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a Darpariaeth Refeniw Isafswm (MRP) yn cael ei godi ar refeniw, a'i osod yn erbyn unrhyw incwm buddsoddiad Rheoli'r Trysorlys y gellir ei dderbyn. Gelwir y gost flynyddol net yn gostau cyllido; caiff hwn ei gymharu â'r ffrwd refeniw net, h.y. y swm a gyllidir drwy'r dreth gyngor, ardrethi busnes a grant y llywodraeth.

Er bod y Cod yn amlygu'r Dangosydd hwn fel mesur fforddiadwyedd allweddol, mae'n pwysleisio hefyd mai dangosydd lleol ydyw yn y bôn ac nad yw lefelau'r cyfrifiad canlynol yn ffordd addas o gymharu rhwng Cynghorau; gwelir hyn yn glir yn y gwahaniaeth yn y ffigyrau i'r Gronfa Gyffredinol a'r HRA a ddangosir uchod. O edrych ar yr wyneb, byddai'r canlyniadau uchod yn awgrymu fod rhaglen gyfalaf yr HRA yn llai fforddiadwy nag un y Gronfa Gyffredinol; cefndir allweddol i'r ffigwr HRA yw'r benthyciad a gymerodd y Cyngor ar 2 Ebrill 2015, sef £146.2M mewn perthynas â'r cynllun Gadael y system Cymhorthdal Tai. Bydd fforddiadwyedd y rhaglen gyfalaf HRA yn tarddu o'r cynllun busnes tri deg mlynedd y mae gofyn i'r Cyngor ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Dangosydd yn achos yr HRA yno i ddangos, wrth i'r benthycia gael ei dalu i lawr dros gyfnod o amser (yn benodol y fethodoleg llinell syth a ddefnyddir i ostwng y ddyled gadael cynllun dros hanner can mlynedd), a ffrwd refeniw sy'n codi'n barhaus gan rent, yna byddai disgwyl i'r dangosydd canran hwn ddisgyn dros amser. Bydd amrywiadau arwyddocaol o'r canran alltro a adroddwyd arno yn y rhagolwg, yn rhoi dangosydd felly o'r gofyniad i ymchwilio ymhellach i'r fforddiadwyedd.

## **Datganiad Darpariaeth Refeniw Isafswm 2020/21**

Lle mae Awdurdod yn cyllido gwariant cyfalaf drwy ddyled, mae'n rhaid iddo roi adnoddau naill ochr i ad-dalu'r ddyled mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r swm a roddir i'r gyllideb refeniw i ad-dalu dyled yn cael ei adnabod fel Darpariaeth Refeniw Isafswm (MRP), er na fu isafswm statudol ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn mynnu fod yr Awdurdod yn talu sylw i Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar *Ddarpariaeth Refeniw Isafswm* (Canllawiau LIC) a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2018.

Nod cyffredinol Canllawiau LIC yw sicrhau fod gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu dros gyfnod sydd naill ai'n rhesymol gymesur â'r hyn y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddiannau drosto, neu, yn achos benthyca a gefnogir gan grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, yn rhesymol gymesur â'r cyfnod sydd ymhlyg ym mhenderfyniad y grant hwnnw.

Mae Canllawiau LIC yn mynnu fod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad MRP bob blwyddyn, ac yn argymhell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o MRP. Bydd y Cyngor yn glynu at y canlynol:

Ar gyfer gwariant cyfalaf a wynebwyd cyn 1 Ebrill 2018, a balans y benthyca â chymorth sy'n weddill fel ar 31 Mawrth 2017, bydd yr MRP yn cael ei gyfrifo ar ddull 'llinell syth' dros 40 mlynedd (Opsiw 3 Dull Bywyd Ased-llinell syth).

Ar gyfer benthyca â chymorth a wynebwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017, bydd yr MRP yn cael ei seilio ar ddull 'llinell syth' dros nifer priodol o flynyddoedd, yn dibynnu ar y cyfnod o amser y mae'r gwariant cyfalaf yn debygol o gynhyrchu buddiannau. (Opsiw 3 Dull Bywyd Ased-llinell syth).

Ar gyfer gwariant cyfalaf nas cynhaliwyd a wynebwyd ar ôl 31 Mawrth 2008, bydd yr MRP yn cael ei bennu drwy godi ar y gwariant dros fywyd defnyddiol disgwylidig yr ased perthnasol mewn rhandaliadau cyfartal, gan ddechrau yn y flwyddyn wedi i'r ased ddod yn weithredol. Bydd MRP ar bryniannau tir rhydd-ddaliad yn cael ei godi dros 50 mlynedd. Bydd MRP ar wariant nad yw'n gysylltiedig ag asedau sefydlog ond a gyfalafwyd drwy reoliadau neu gyfeiriad yn cael ei godi dros gyfnod yr ystyrir ei fod yn gymesur â'r buddiannau sy'n cronni. (Opsiw 3 yng Nghymru a Lloegr)

Ar gyfer asedau a gaffaelwyd gan les cyllid neu'r Fenter Cyllid Preifat, bydd yr MRP yn cael ei bennu fel ei fod yn gyfartal ag elfen y rhent neu'r tâl sy'n mynd i ostwng gwerth rwymedigaeth y fantolen.

O ran y ddyled HRA, mae tair elfen benodol i'r MRP

- Mae gadael cynllun HRA yn cael ei gyfrifo ar linell syth 2%; (yr MRP wedi'i godi yn y flwyddyn y cymerwyd y benthyciad)
- Benthyca â chymorth cyn gadael ar linell syth 2%
- Benthyca digymorth yn cael ei gyfrifo ar oes yr ased
- Bydd dyraniadau o'r Gronfa Gyffredinol ar sail llinell syth o'r pwynt trosglwyddo yn unol â'r driniaeth y cytunwyd arni i'r categori ased.

Ni fydd gwariant cyfalaf a wynebwyd yn ystod 2020/21 yn destun tâl MRP tan 2021/22.

Yn seiliedig ar amcangyfrif diweddaraf yr Awdurdod o'i Ofyniad Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2020, gosodwyd y gyllideb ar gyfer MRP fel a ganlyn:

	<b>31.03.2020 Amcan CFR £m</b>	<b>2020/21 Amcan MRP £m</b>
Gwariant cyfalaf cyn 01.04.2008	74.15	2.00
Gwariant cyfalaf â chymorth ar ôl 31.03.2008	41.62	1.49
Gwariant cyfalaf digymorth ar ôl 31.03.2008	14.02	1.27
Les Cyllid a Menter Cyllid Preifat	28.43	1.24
<b>Cyfanswm Cronfa Gyffredinol</b>	<b>158.22</b>	<b>6.01</b>
Gadael Cymhorthdal HRA	131.66	2.93
Gwariant Cyfalaf Digymorth	165.95	7.38
Gwariant Cyfalaf â Chymorth	9.60	0.20
<b>Cyfanswm Cyfrif Refeniw Tai (HRA)</b>	<b>307.21</b>	<b>10.50</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>465.43</b>	<b>16.52</b>